**COFNOD O BENDERFYNIADAU'R CYNGOR - 22 GORFFENNAF 2020**

**Yn bresennol:**

**Cynghorwyr:** SE Baldwin – Maer

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett | MC Clarke |
| N Clarke | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| PA Davies | SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie |
| CA Green | T Giffard | RM Granville | DG Howells |
| A Hussain | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | E Venables | SR Vidal | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

**Swyddogion:** M Shephard, S Cooper, L Harvey, K Watson, G Lewis, D Exton, A Rees, M Pitman

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariad ar Ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Covid-19** |
| Penderfynwyd bod | y Cyngor yn:<br>• Nodi cyflwyniad y Prif Weithredwr;<br>• Nodi'r dull a gymeradwywyd gan y Cabinet i ymateb i'r pandemig Covid-19 a chaniatáu i'r Cyngor ailgychwyn, adfer ac adnewyddu ei ddarpariaeth gwasanaethau;<br>• Nodi sefydlu Panel Adfer Trawsbleidiol i helpu i siapio, llywio, a chynghori'r Cabinet ar gynllunio adferiad y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Canlyniad Rhaglen Gyfalaf 2019-20 ac Adroddiad Chwarter 1 2020/21** |
| Penderfynwyd bod | y Cyngor yn:<br><br>• nodi'r canlyniad cyfalaf ar gyfer 2019-20 (Atodiad A i'r adroddiad)<br>• nodi diweddariad ar Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor hyd at 30 Mehefin 2020 (Atodiad B i'r adroddiad)<br>• cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C i'r adroddiad)<br>• nodi'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion eraill a ragwelir ar gyfer 2020-21 (Atodiad D i'r adroddiad) |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi** |
| Penderfynwyd | bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad hwn. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Hysbysiad o Gynnig - Cynigwyd gan y Cynghorydd R Young** |
| Penderfynwyd | bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn datgan argyfwng hinsawdd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y- |

| | |
|---|---|
| | bont ar Ogwr yn cydnabod y dystiolaeth wyddonol sylweddol o batrymau tywydd newidiol fel y dangoswyd gan y glaw a'r llifogydd na welwyd eu tebyg o'r blaen ar lefel leol a'r DU gyfan yn ddiweddar. Cred fod hyn yn dystiolaeth bellach o gynhesu byd-eang, ac felly mae'n credu'n gryf fod argyfwng hinsawdd yn bodoli erbyn hyn, ac o ganlyniad mae'n galw ar Lywodraeth y DU a Chymru i roi'r canlynol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:<br><br>a. y pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i wneud Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn garbon niwtral<br>b. lefelau o adnoddau ar raddfa i ymateb i'r heriau a wynebir a phrosesau ar gyfer cael mynediad at yr adnoddau hynny sy'n galluogi gweithredu ar y cyfle cynharaf<br>i) Sefydlu mecanweithiau ymgysylltu priodol i weithio â rhanddeiliaid allweddol<br>ii) Ymgymryd ag adolygiad ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r gweithredu ar hyn o bryd i ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd iii) Datblygu Strategaeth Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a chynllun gweithredu â blaenoriaeth sy'n amlinellu camau gweithredu yn y tymor byr, canolig a hir. |